OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 24 (Cy. 12)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Ionawr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *12 Ionawr 2022* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1* | |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 23(1), 131 a 256(1) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016(**1**).

Yn unol ag adran 23(2) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol.

(**1**) 2016 dccc 1. Gweler adran 252 am y diffiniad o "rhagnodedig".

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Contractau Safonol â Chymorth) (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2022, Introductory Text.